greenlinks community transport cludiant cymunedol

# AMODAU TEITHIO

- Mae'n rhaid i chi fod yn aelod i ddefnyddio gwasanaeth Greenlinks ac eithrio lle y mae'r cwmni'n gweithredu fel gwasanaeth bysiau lleol, a dim ond trigolion y Fro a gaiff ymaelodi.
- Mae costau'n amrywio yn ôl hyd y daith, ond ni fydd yn rhaid talu mwy na £6.
  Dyma'r strwythur taliadau newydd:

| Taliadau'r tu fewn ac ar draws nifer o ardaloedd | UNFFORDD | DWYFFORDD |
|---|---|---|
| 1 Ardal | £2.50 | £3.50 |
| 2 Ardal | £3.50 | £5.00 |
| 3 Ardal | £5.00 | £6.00 |

Yr ardaloedd yw **Dwyrain y Fro, Gorllewin y Fro** a'r **Fro Allanol.**

- Sylwch fod y **'Fro Allanol'** wedi'i chyfyngu i Borthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr, Llantrisant (gan gynnwys Ysbyty Brenhinol Morgannwg) a Chaerdydd. Gwelwch y diagram ar y dudalen nesaf.
- Ni chewch ddefnyddio Tocyn Mantais Bws ar wasanaeth Greenlinks, ac eithrio pan maent yn rhedeg gwasanaeth bws lleol (sydd wedi'l hysbysebu fel hyn).
- Pan fyddwch yn ffonio i wneud cais am daith, dylech roi cymaint o rybudd ymlaen llaw ag sy'n bosibl. Dylai pob cais gael ei wneud erbyn canol dydd ar y diwrnod cyn teithio. Ni allwn dderbyn unrhyw geisiadau ar y diwrnod teithio. Bydd y llinell ffôn ar agor rhwng 9.00am ac 1.00pm bob dydd o ddydd Llun hyd ddydd Gwener.

Cewch drefnu'ch taith drwy ffonio'r rhif canlynol yn rhad ac am ddim:

**0800 2941113**

- Dyfynnwch eich rhif aelodaeth, a rhowch wybod i ni ble a pha bryd yr ydych am i ni eich codi a pha bryd yr ydych am ddod yn ôl. Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i ateb eich cais, a byddwn yn ceisio eich codi o stepen y drws os medrwn.
- Caiff eich gofalwr deithio gyda chi os yw'n aelod o'r cynllun ac yn fodlon talu'r swm priodol am deithio.
- Mae'n rhaid i bawb sy'n teithio ar ein bysiau wisgo gwregys diogelwch bob amser.
- Nid oes hawl i chi boeni na bygwth y gwirfoddolwyr neu unrhyw gwsmeriaid eraill, a bydd perygl i chi golli eich aelodaeth os gwnewch chi hynny.
- Bydd y bws ar gael i grwpiau elusennol a dielw ei logi am brisiau cystadleuol iawn ar y penwythnos a chyda'r nos.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

# greenlinks PARTHAU TALIADAU

community transport cludiant cymunedol




©Crown Copyright and database rights 2013 0rdnance Survey 100023424 January 2013 ©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023424 Ionawr 2013

## TALIADAU AR GYFER TEITHIO'R TU FEWN I BARTHAU AC AR DRAWS PARTHAU

| | | |
|---|---|---|
| **1 Parth** | unffordd £2.50 | dwyffordd £3.50 |
| **2 Barth** | unffordd £3.50 | dwyffordd £5.00 |
| **3 Pharth** | unffordd £5.00 | dwyffordd £6.00 |

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government